

BLOG



Y



BOIS

8B2



Blog y Bois!



O Ongl Arall

Nofel ddirgel gyda bach o chwaraeon ynddi yw 'O Ongl Arall'. Martyn Geraint yw'r awdur y llyfr hwn. Mae wedi cael ei argraffu gan Wasg Gomer. Prif gymeriad yn y llyfr yw Tom Evans, sef dyfarnwr pêl-droed am dimoedd dan 16. Ond pan mae pethau rhyfedd yn digwydd o flaen y gôl, mae Tom yn mynd yn ôl yno hwyr yn y nos, mae'n dechrau gweld pethau rhyfedd iawn. Mae Michael Reed, y pel - droediwr am-ryddawn, yn egluro ei brofiad cyffrous yn Parc Pontypridd ac yna mae'n troi mewn i stori ddirgel. Yn ein barn ni mae'r llyfr yn dda ac mae'n denu chi i chwarae pêl-droed. Darllenwch y llyfr i ddarganfod beth sy'n digwydd i Tom a Michael.



Richard, Garan a Mathew

Bancsi Bach

gan Tudur Dylan Jones



Mae'r Bancsi Bach yn llyfr ardderchog sydd yn cynnwys prif gymeriad o'r enw Owen. Rydyn newydd ddechrau darllen y llyfr gwyh. Hyd yn hyn,



rydyn yn gwybod bod Owen yn dwli ar gelf a graffiti, yn y stori mae Owen newydd wneud ei waith diweddaraf ar wal, milltir lawr yr heol. Y bore wedyn roedd Owen yn ysu i weld ei waith. Ond roedd y bachgen yn canolbwyntio gormod ar ddim cael ei daro gan Hedd, bwli'r ysgol, felly yn anffodus doedd Owen ddim wedi gweld ei waith.

Pan gyrhaeddodd Owen ei dosbarth cofrestri cofiodd fod wedi anghofio edrych ar ei waith. Cerddodd i mewn i'r ystafell dosbarth a gwelodd yr athro hurt. Erbyn y wers gyntaf doedd pawb ddim credu eu llygaid, dechreuodd yr athro fwyta brechdan frwchnedd ac yfed coffi. Yng nghanol y wers roedd yr athro wedi dweud "cewch 45

munud o wneud unrhyw beth rydych eisiau." Ond roedd y dosbarth yn dawel, os fyddai unrhyw athro arall wedi gwneud hwn yn ein hysgol ni, bydd y dosbarth yn ymladd ac yn gwneud sŵn fel taran.




Callum ac Ashton



Hlo Bri@n! :) Gan Meleri Wyn James

Mae'r stori am fachgen o'r enw Brian Hibbs sydd yn cefnogi tim pel-droed United. Ar ôl gwylio'r gem mae e'n ffeindio ffon symudol gwych. Yn lle dweud wrth rywun, gwnaeth Bri (Brian) gadw'r ffon ac cafodd sypreis pan mai perchennog y ffon yw prif sgoriwr Unedig.




"Mae'r llyfr hyn yn anhygoel!" - Gwion Davies

"Mae'r llyfr yn fantastig!" - Rhufon Phillips


"Mae'r llyfr yn defnyddio llawer o fratiaith, ac mae hyn yn apelio ataf oherwydd rydych chi'n nabod y cymeriadau yn well." - Gwion

Gwion a Rhufon



Ar Ddiwedd y Dydd gan Elgan Phillip Davies

Eleni am y tro cyntaf erioed, un tîm pêl-droed yn unig sydd gan ysgol Glanaber. Pam? Mae'r Prifathro'n rhy brysur. Gan fynd yn groes i ddymuniad y Prifathro, mae tad un o'r bechgyn yn ffurfio tîm newydd sbon. Sef BMG unedig.



Un gêm yn unig sydd ar ôl. Gem derfynol y cwpan rhwng BMG unedig a thîm yr ysgol. Mae'r cyffro'n gafael ym mhawb, a chefnogwyr y ddau dim yn dechrau colli rheolaeth arnynt eu hunain. A fydd hyn yn effeithio ar y timau? A pha dactegau bydd y ddau reolwr yn eu mabwysiadu? Mae'r cyfan yn addo diwedd glo cyffrous i'r tymor, ond pwy fydd yn fuddugol ar ddiwedd y dydd? Mae'n nofel afaelgar, doniol a chyffrous. Dewch i ddarllen



Cyfres

cefn y rhwyd

- 1, Cic o'r smotyn
- 2, Yn y baw a'r Llaca
- 3, Cyffro'r Cwpan
- 4, Tacl Hwyr
5. Ar Ddiwedd y Dydd

"Mae'n arbennig!" Ryan Evans

"Mae'n FANTASTIG!" Ifan Freeman



Ifan
Ryan a
Sam